***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 3100

# Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu) (Cymru) 2006

## RHAN 1

CYFFREDINOL

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu) (Cymru) 2006.

(2) Maent yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2006.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "ceisydd" ("*applicant*")—

(a) yn achos penderfyniad ar addasrwydd, yw darpar fabwysiadydd;

(b) yn achos penderfyniad i ddatgelu, yw person perthnasol o fewn ystyr "relevant person" yn rheoliad 13A(7) o'r Rheoliadau Datgelu;

ystyr "cyfarfod adolygu" ("*review meeting*") yw cyfarfod a gynullir yn unol â rheoliad 13 at ddibenion adolygu penderfyniad cymhwysol;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002;

ystyr "gweithiwr cymdeithasol" ("*social worker*") yw person sydd wedi'i gofrestru'n weithiwr cymdeithasol ar gofrestr sy'n cael ei chadw gan y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol neu Gyngor Gofal Cymru o dan adran 56 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**) neu ar gofrestr gyfatebol sy'n cael ei chadw o dan gyfraith yr Alban neu Ogledd Iwerddon;

ystyr "panel" ("*panel*") yw panel a gyfansoddwyd yn unol â rheoliad 4(1);

ystyr "panel mabwysiadu" ("*adoption panel*") yw panel a gyfansoddwyd yn unol â rheoliad 3 o'r Rheoliadau Asiantaethau;

ystyr "penderfyniad ar addasrwydd" ("*suitability determination*") yw penderfyniad cymhwysol a ddisgrifir yn rheoliad 3(a);

ystyr "penderfyniad cymhwysol" ("*qualifying determination*") yw penderfyniad a ddisgrifir yn rheoliad 3(a);

(**1**) Deddf Safonau Gofal 2000, p.14.

ystyr "penderfyniad i ddatgelu" ("*disclosure determination*") yw penderfyniad cymhwysol a ddisgrifir yn rheoliad 13A(1) o'r Rheoliadau Datgelu(**2**);

ystyr "y Rheoliadau Adolygu Annibynnol 2005" ("*the Independent Review Regulations 2005*") yw Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadau) (Cymru) 2005(**3**);

ystyr "y Rheoliadau Asiantaethau" ("*the Agencies Regulations*") yw Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005(**4**);

ystyr "y Rheoliadau Datgelu" ("*the Disclosure Regulations*") yw Rheoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005(**5**); ac

mae "y rhestr ganolog" ("*the central list*") i'w dehongli yn unol â rheoliad 4.

### Penderfyniad cymhwysol at ddibenion adran 12(2) o'r Ddeddf.

**3.** At ddibenion adran 12(2) o'r Ddeddf, mae penderfyniad cymhwysol—

(a) yn benderfyniad sydd wedi'i wneud gan asiantaeth fabwysiadu yn unol â Rheoliadau 2005 fel a ganlyn:

(i) pan na fydd yr asiantaeth, o dan reoliad 28(4) o'r Rheoliadau Asiantaethau, yn bwriadu cymeradwyo darpar fabwysiadydd fel un sy'n addas i fod yn rhiant mabwysiadol.

(ii) pan fo'r asiantaeth o'r farn nad yw darpar fabwysiadydd yn addas mwyach i fod yn rhiant mabwysiadol yn dilyn adolygiad o dan reoliad 30 o'r Rheoliadau Asiantaethau.

(b) yn benderfyniad a ddisgrifir yn rheoliad 13A(1) o'r Rheoliadau Datgelu(**6**).

(**2**) Mae Rheoliad 13A(1) o'r Rheoliadau Datgelu yn pennu'r penderfyniadau canlynol gan yr asiantaeth fabwysiadu briodol, mewn perthynas â chais o dan adran 61 o'r Ddeddf: (a) peidio â bwrw ymlaen â chais gan unrhyw berson am ddatgelu gwybodaeth a ddiogelir; (b) datgelu gwybodaeth i geisydd pan fo'r person hwnnw wedi dal yn ôl gydsyniad i ddatgelu'r wybodaeth; ac (c) peidio â datgelu gwybodaeth am berson i'r ceisydd pan fo'r person hwnnw wedi rhoi cydsyniad i ddatgelu'r wybodaeth.

(**3**) 2005/1891 (Cy.147).

(**4**) O.S. 2005/1313.

(**5**) O.S. 2005/2689.

(**6**) *Gweler* rheoliad 16 o'r Rheoliadau hyn.